## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

## CCCC 2008 (Papur 4 Rhan 1)

**Dyddiad:** 4 Rhagfyr 2008
**Amser:** 1.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Adrian Crompton x8264

# Cyflogau cadeiryddion pwyllgorau deddfwriaethol parhaol

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.***

### Diben a chrynodeb o'r materion

1. Ar 4 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Cynulliad sefydlu hyd at 5 pwyllgor deddfwriaethol parhaol, oll gyda chadeirydd na fyddai'n pleidleisio.

2. Hyd yn hyn, nid yw cadeiryddion y pwyllgorau deddfwriaethol ad hoc a sefydlwyd gan y Cynulliad wedi cael cyflog ychwanegol am fod yn y swydd. Mae hawl gan gadeiryddion y rhan fwyaf o'r pwyllgorau eraill sy'n cwrdd yn rheolaidd gael taliad o'r fath, i'w dalu yn ôl dwy gyfradd:

– 27.9% o'r cyflog ychwanegol a roddir i Weinidogion Cymru (£11,331 ar hyn o bryd), yn daladwy i gadeiryddion y pedwar prif bwyllgor craffu, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid; a

– 14.6% o'r cyflog ychwanegol a roddir i Weinidogion Cymru (£5,934 ar hyn o bryd), sy'n daladwy i gadeiryddion pwyllgorau eraill sydd â'r hawl i gael lwfans.

3. Bydd llwyth gwaith y pwyllgorau deddfwriaethol newydd yn adlewyrchu faint o fusnes deddfwriaethol y mae'r Cynulliad yn ymdrin ag ef. Mae'n debygol, felly, y byddant yn cwrdd yn aml ac yn rheolaidd – mae amserlen y pwyllgorau ar gyfer dau dymor cyntaf 2009 yn neilltuo amser i'r pwyllgorau gynnal cyfarfodydd wythnosol, os bydd angen. Bydd y rôl cadeirio yn un arbenigol, a bydd angen i ddeiliad y swydd ddatblygu arbenigedd uwch o ran ein gweithdrefanau deddfwriaethol.

**Argymhelliad**

4. O gofio'r baich gwaith, a phroffil uchel a natur arbenigol y gwaith y bydd gofyn i gadeiryddion y pwyllgorau deddfwriaethol newydd ei wneud, argymhellir eu bod yn cael eu talu ar raddfa uwch.